# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

**DYDD** Mercher, 24 Ionawr 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.D. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
L. James, Rheolwr y Gwasanaethau Tai
S. Lewis, Rheolwr Ardal Cynorthwyol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell 65 - Neuadd Y Sir, Caerfyrddin - 2.00 pm - 2.15 pm

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. PENNU RHENTI AR GYFER SAFLE SIPSIWN/TEITHWYR PEN-Y-BRYN 2018/19**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad i gadarnhau'r cynnydd yn y rhenti wythnosol ar gyfer safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Hysbyswyd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y safle Sipsiwn a Theithwyr yn wasanaeth a gyllidir gan y Dreth Gyngor a bod 15 llain ar safle Pen-y-bryn ar hyn o bryd. Yr oedd yr holl Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai yng Nghymru yn gweithredu yn unol â'r polisi rhenti tai cymdeithasol mewn perthynas â lefelau rhenti tai cymdeithasol. Er nad oedd safle Pen-y-bryn yn rhan o'r Cyfrif Refeniw Tai, ac felly nid oedd y rhenti'n cael eu rheoli gan bolisi rhenti Llywodraeth Cymru, bernid ei bod yn deg ac yn gyfiawn bod y rhenti'n cynyddu'r un faint ag ar gyfer tenantiaid y Cyngor. Ym mlwyddyn ariannol 2018/19 byddai hyn yn gynnydd o 3.5% (CPI + 1.5%). O ganlyniad, argymhellwyd mai £53.46 fyddai'r rhenti wythnosol am 2018/19 ar gyfer safle Pen-y-bryn (taliadau net am wasanaethau a threthi dŵr). Byddai'r rhent hwn yn rhoi incwm blynyddol o £38,491 am 2018/19, petai pob un o'r 15 llain yn cael ei defnyddio drwy gydol y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:**

**2.1 pennu mai £53.46 fyddai'r rhent am leiniau ar Safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn am 2018/19;**

**2.2 bod y polisi ynghylch taliadau am wasanaethau yn cael ei weithredu i sicrhau bod tenantiaid y safle yn talu am y gwasanaethau ychwanegol hynny;**

**2.3 pennu mai £15.00 yw'r tâl am ddefnyddio dŵr;**

**2.4 awdurdodi swyddogion i ymgynghori â phreswylwyr Pen-y-bryn a phennu'r tâl cyffredinol a nodir yn nhabl 1 yn yr adroddiad.**

**3. COFNOD PENDERFYNIADAU - 14 TACHWEDD 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir.**

____________________________ ________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**